

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023

1. Cefndir

Diben a chwmpas

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (y Gyllideb Ddrafft) mewn rhai o'r meysydd polisi sy'n rhan o'n cylch gwaith. Nid yw'n sylwebaeth gynhwysfawr ar bob maes o fewn cylch gwaith y Pwyllgor; mae'n canolbwyntio ar rai materion polisi a phrosesau allweddol a fu'n rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb.

2. Ynghyd ag adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriad hwn yw hysbysu dadl y Senedd ar y Gyllideb Ddrafft, a drefnwyd ar gyfer 7 Chwefror 2023.

Dull o graffu

3. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer craffu ar y gyllideb a chawsom ymateb ar 16 Rhagfyr 2022.

4. Gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt MS (y Gweinidog) a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS (y Dirprwy Weinidog) ar 16 Ionawr 2023.

Gwaith Craffu y Pwyllgor Cyllid

5. Gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Senedd sawl darn o waith yn y cyfnod yn arwain at y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys grwpiau ffocws ledled Cymru ym mis Mehefin 2022, ynghyd â digwyddiad



i randdeiliad a dadl ar flaenoriaethau gwario ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2022¹². Cafwyd 29 o ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid o 23 Medi hyd 18 Tachwedd.³

2. Y Gyllideb Ddrafft

- 6.** Yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, cafodd £1.2 biliwn ychwanegol ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.⁴ Yn ei hymateb i Ddatganiad yr Hydref, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, y bydd y setliad cyffredinol, gan gyfrif am chwyddiant, yn werth llai mewn termau real dros y cyfnod adolygu gwariant o dair blynedd (2022-23 i 2024-25) nag yr oedd adeg yr Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2021.⁵
- 7.** Cafodd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ei gosod ar 13 Rhagfyr 2022 a dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ei bod yn "adlewyrchu'r storm berffaith o bwysau economaidd a chyllidebol sy'n wynebu Cymru".⁶
- 8.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu cyfanswm o £23.7 biliwn i adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'n blaenoriaethu cyllid ar gyfer y GIG a llywodraeth leol (sy'n cyfateb i bron i 70% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru).
- 9.** Wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft, nododd Gweinidogion Cymru gyllid a allai gael ei ryddhau o'r cynlluniau sy'n bodoli eisoes i gael eu hailddyrannu i'r meysydd sydd â'r angen mwyaf. Dywed Llywodraeth Cymru mai'r egwyddorion sy'n sail i'r ymarfer ailflaenoriaethu oedd sicrhau cyllideb gytbwys a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.⁷
- 10.** Dywed papur y Gweinidog fod y gwaith ailflaenoriaethu yn canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen; cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw; a chefnogi'r economi drwy gyfnod dirwasgiad.⁸

¹ Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Gorffennaf 2022

² Cyfarfod llawn 13 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion

³ Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#)

⁴ Llywodraeth y DU, [Datganiad Hydref 2022](#), Tachwedd 2022

⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad Hydref 2022 y DU](#), Tachwedd 2022

⁶ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2023-24](#); Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2023-24](#)

⁷ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

⁸ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

11. Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio a gyrhaeddwyd gyda Phlaid Cymru.⁹ Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Cytundeb Cydweithio ar 1 Rhagfyr 2022.¹⁰

Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol

12. Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yw Cyfiawnder Cymdeithasol. Y dyraniad adnoddau drafft ar gyfer y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol oedd £110.355 miliwn ar gyfer 2022-23; roedd disgwyl i hyn gynyddu i £122.685 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Y dyraniad adnoddau gwirioneddol ar gyfer 2023-24 yw £142.057 miliwn.

13. Yn ystod 2022-23, bu bron i'r dyraniad adnoddau ar gyfer y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ddyblu. Cynyddodd £116.9 miliwn fel rhan o becyn o fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Fe wnaeth y dyraniad untro hwn nad yw'n rheolaidd gynyddu'r dyraniad adnoddau i £227,585 miliwn.

Tabl 1: Trosolwg o'r gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol

Adnodd	£'000
Cyllideb Ddrafft 2022-23	110,355
Cyllideb Derfynol 2022-23	227,585
Cyllideb Ddangosol 2023-24	122,685
Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022)	142,057
Cyfalaf	
Cyllideb Ddrafft 2022-23	17,000
Cyllideb Derfynol 2022-23	18,496
Cyllideb Ddangosol 2023-24	17,494
Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022)	17,494
Cyfanswm cyffredinol Cyllideb Ddrafft MEG Cyfiawnder Cymdeithasol 202 3-24	159,551

Nodiadau: Nid yw'r tabl yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

⁹ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu](#)

¹⁰ Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, [Y Cytundeb Cydweithio: adroddiad blynyddol 2021 i 2022, Rhagfyr 2022](#)

14. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi y gofynnwyd i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol gyfrannu £2.68 miliwn at yr ymarfer ailflaenoriaethu, a bod "penderfyniadau anodd yn angenrheidiol er mwyn lleihau cyllidebau". Mae'n dweud:

*"Bydd cyllidebau ar gyfer Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Partneriaeth Gymdeithasol, Penodiadau Cyhoeddus a Chydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn cynyddu o hyd rhwng 2022-23 a 2023-24 ond yn arafach nag a fwriadwyd yn flaenorol."*¹¹

Ein barn

Rydym yn byw mewn amseroedd digynsail wrth i aelwydydd ledled Cymru wynebu argyfwng costau byw sy'n dyfnhau rhaniadau, gwaethygu anghydraddoldebau, ac yn effeithio'n anghymesur ar y mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Rydym yn deall y cyfyngiadau a roddwyd ar Lywodraeth Cymru wrth osod ei Chyllideb Ddrafft a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Chwaraeodd y dyraniad untro nad yw'n rheolaidd a oedd o fudd i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn ystod 2022-23 ran hanfodol wrth gefnogi pobl ar adeg unigryw heriol, a bydd ei golli i bob pwrpas yn 2023-24 yn cael ei deimlo'n ingol wrth i'r pwysau barhau. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn paratoi bellach ar gyfer yr heriau fydd yn codi'r gaeaf nesaf oherwydd colli'r arian hwn.

Mae cyd-destun y gyllideb yn heriol; bydd chwyddiant yn parhau i leihau pŵer gwario'r aelwyd a'r llywodraeth yn y tymor agos. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol na ddylid colli'r angen brys i gryfhau a gwella ansawdd, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol ar draws y llywodraeth, yn enwedig o ystyried yr anghydraddoldebau llwm a amlygwyd yn ystod pandemig COVID-19. Dyma'r amser i ystyried ar frys y ffordd y gellir gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwerthfawr ac y gall Llywodraeth Cymru ddangos effaith ac effeithiolrwydd ei phenderfyniadau cyllideb. I'r perwyl hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun costau byw ar gyfer y gaeaf nesaf ar frys i ystyried y ffordd orau o gynorthwyo'r rhai y mae colli'r gefnogaeth a ddarparwyd drwy gyllid anrheolaidd y llynedd wedi effeithio arnynt. Dylai'r cynllun gynnwys pwyslais penodol ar sicrhau bod y mwyaf agored i niwed yn cael eu gwarchod. Er mwyn hysbysu'r cynllun dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal proses fodelu a darogan i adnabod y bobl a'r cartrefi sy'n debygol o wynebu'r pwysau mwyaf, ac i sicrhau bod y rhai hynny ar incwm isel yn gallu cynhesu eu cartrefi y gaeaf nesaf.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun costau byw ar gyfer y gaeaf nesaf i ystyried y ffordd orau o gynorthwyo'r rhai y mae colli'r gefnogaeth a ddarparwyd drwy

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

gyllid anrheolaidd wedi effeithio arnynt. Dylai'r cynllun gynnwys pwyslais penodol ar sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu gwarchod. Dylai'r gwaith hwn ddechrau ar unwaith; a chynnwys cyfres o dargedau i fesur perfformiad a'u cyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2023 fan pellaf.

3. Meysydd polisi allweddol

Taclo tlodi a chostau byw

15. Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei rhagolygon ar yr un diwrnod â Datganiad Hydref Llywodraeth y DU.¹² Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fod y ffigurau'n awgrymu "ein bod ni'n wynebu'r cwmp mwyaf mewn safonau byw ers iddyn nhw gael eu cofnodi".¹³

16. Nododd y Gweinidog ei bod wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'r Cynllun Treialu Incwm Sylfaenol (BIP) fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw. Tynnodd sylw hefyd at gostau cymorth costau byw ychwanegol a ddarperir drwy bortffolios eraill, fel y Grant Datblygu Disgyblion ac atal digartrefedd.¹⁴

17. Mae'r DAF yn darparu taliadau cymorth brys i bobl mewn angen. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod dros 200,000 o bobl wedi cael cymorth gan y DAF yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac y bu'n gwbl hanfodol fel achubiaeth i bobl.¹⁵ Dadleuodd hefyd, er mai £20 miliwn yw'r gyllideb ddangosol ar gyfer y DAF, ei bod wedi ei chynyddu £18.8 miliwn, yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i dalu allan eleni.¹⁶

18. Bydd y BIP, a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog fel "ymyriad radical", yn derbyn £2.2 miliwn yn ychwanegol yn 2023-24.¹⁷ Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y BIP yn flaenoriaeth oherwydd ei fod yn wariant ataliol, a nododd fod y nifer sy'n manteisio ar y cynllun treialu wedi bod yn rhedeg ar tua 97%.¹⁸

19. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £11 miliwn mewn cyllid grant ar gyfer gwasanaethau'r Gronfa Cyngor Sengl (SAF) sydd, yn ôl, a dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi helpu 144,000 o bobl i ymdrin â dros 660,000 o broblemau lles cymdeithasol ers 2020. Gwnaethom ofyn i'r

¹² Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, [Economic and Fiscal Outlook – Tachwedd 2022](#)

¹³ Cyfarfod llawn [22 Tachwedd 2022](#), Cofnod y Trafodion, paragraff 187

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

¹⁵ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 25](#)

¹⁶ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12](#)

¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

¹⁸ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 59](#)

Gweinidog a fyddai'r arian yn ddigonol, o ystyried y bydd y galw hwnnw am gyngor, yn enwedig cyngor ar ddyledion, yn cynyddu dros y flwyddyn nesaf. Dywedodd y byddai'r cyllid yn ddigonol gan gyfeirio at y ffaith ei fod yn ymwneud â phartneriaeth cynnig cyngor, gan dynnu sylw yn arbennig at Lywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â llywodraeth leol.¹⁹

20. Mae papur y Gweinidog yn dweud y "nododd 83% o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl eu bod yn dod o grŵp poblogaeth sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl a phobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol".²⁰

Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes

21. Mae data swyddogol yn awgrymu y bydd cynnydd mewn prisiau ynni yn arwain at gynnydd sylweddol mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Rhagwelodd Llywodraeth Cymru y gallai hyd at 45% o gartrefi Cymru (614,000 o aelwydydd) fod yn dioddef tlodi tanwydd ar ôl y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill 2022, o'i gymharu â 14% o gartrefi (196,000 o gartrefi) ym mis Hydref 2021.²¹

22. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi dweud na fydd Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru, a ddarparodd £200 i gartrefi incwm isel, yn parhau yn 2023-24. Dywedodd wrth y Pwyllgor Cyllid fod y cynllun yn fuddsoddiad mawr iawn, iawn, ac nid yw'n rhyweth y gallwn fforddio ei wneud flwyddyn nesaf.²²

23. Yn ei ddadansoddiad o'r Gyllideb Ddrafft, dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig y byddai'r penderfyniad i beidio â pharhau â Chynllun Cymorth Tanwydd Cymru yn cael effaith ar y rhai mwyaf ansefydlog yn ariannol.²³

24. Un maes sy'n peri pryder yw mai dim ond hanner yr awdurdodau lleol sydd wedi trosglwyddo'n awtomatig gefnogaeth fel taliadau tanwydd gaeaf gan Lywodraeth Cymru i denantiaid cymdeithasol.²⁴ Dywedodd y Gweinidog wrthym fod pecyn cymorth arferion gorau ar gael i awdurdodau lleol hefyd, a chyfeiriodd at waith sy'n cael ei wneud ar yr Siarter Budd-

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 29

²⁰ Llywodraeth Cymru, Papur y Gyllideb Ddrafft

²¹ Llywodraeth Cymru, Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2021

²² Pwyllgor Cyllid, 14 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 50

²³ Dadansoddiad IWA, Rhagfyr 2022

²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 34

daliadau. Roedd hi'n cydnabod pwysigrwydd rhoi system fudd-daliadau Cymru ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol.²⁵

25. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod y Rhaglen Cartrefi Cynnes (WHP) wedi esblygu mewn ymateb i'r argyfwng presennol a'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes.²⁶ Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ebrill 2022, ac nid yw'r canlyniad wedi'i gyhoeddi eto.

26. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd wedi cynyddu mwy na £5 miliwn. Cytunodd fod y cwestiwn ynglŷn â sut i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni a chyllidebau tlodi tanwydd yn hanfodol bwysig, a nododd y buddsoddiad a wnaed hyd yma gan y Rhaglen Cartrefi Cynnes. Nododd fod y £5 miliwn yn cynyddu cyllideb y rhaglen Cartrefi Cynnes, a bydd gwahaniaeth iddi y flwyddyn nesaf.²⁷

Ein barn

Cymorth costau byw

Er bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn fecanwaith pwysig, mae'n canolbwyntio ar gefnogaeth argyfwng tymor byr, a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am bwy sydd wedi cael budd ohono a sut. Mae angen i Lywodraeth Cymru egluro effaith y Gronfa mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn i ni allu deall y cyfiawnhad dros flaenoriaethu cymorth costau byw drwyddi.

Mae angen amlwg i edrych ar atebion cynaliadwy, tymor hwy i'r argyfwng costau byw. Nodwn fod cyllid wedi ei ddyrannu ar sail gwariant y llynedd, ond nid yw hynny'n adlewyrchu realiti'r gostyngiad o £116 miliwn mewn cymorth ar gyfer y rhai ar incwm isel eleni. Heb y £116 miliwn anrheolaidd, mae pobl yn debygol o droi at ffynonellau eraill o gymorth ariannol, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r galw. Felly os yw'r Gronfa Cymorth Dewisol am fod yn brif ffynhonnell cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dyraniad ar gyfer 2023-24 yn barhaus, gyda photensial i'w gynyddu os oes angen.

Mae'r Gronfa Gynghori Sengl wedi cefnogi bron i 150,000 o bobl dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd yn parhau'n ymyriad pwysig dros y misoedd nesaf, wrth ragweld y bydd y galw am gyngor yn cynyddu, yn enwedig cyngor ar ddyledion. Er bod y Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog am bartneriaeth cynnig cyngor â llywodraeth leol, bydd yn bwysig adolygu dyraniad y Gronfa

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 35.

²⁶ Llywodraeth Cymru, Papur y Gyllideb Ddrafft

²⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 45.

Gynggori Sengl yn barhaus er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan yn y bartneriaeth hon yn llawn.

Mae'n bryderus ar adeg mor dyngedfennol, nad yw pobl yn parhau i fod yn ymwybodol o'r holl lwybrau cymorth sydd ar gael iddynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ar frys pam mai dim ond hanner yr awdurdodau lleol sy'n trosglwyddo tenantiaid tai cymdeithasol yn awtomatig i gymorth y mae hawl ganddynt iddo, a dylai ddefnyddio'r Siarter Budd-daliadau sydd ar ddod i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Rydym yn croesawu'r parhad â'r Cynllun Treialu Incwm Sylfaenol ac roedd yn arbennig o galonogol i ni glywed am y lefelau uchel o bobl sy'n defnyddio cynllun mor bwysig. Mae'r Cynllun Treialu hwn yn enghraifft wych o gefnogi grŵp agored i niwed sy'n debygol o deimlo effaith yr argyfwng costau byw yn ddifrifol.

Edrychwn ymlaen at archwilio'r materion hyn ymhellach yn rhan o'n gwaith dilynol sydd i ddod ar ddyled ac effaith costau byw cynyddol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae wedi gwerthuso effaith y Gronfa Cymorth Dewisol mewn blynyddoedd blaenorol ac yna cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i lywio dyraniadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dyraniadau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Cyngor Sengl yn barhaus, gyda'r potensial i'w cynyddu os oes angen. Dylai hyn gynnwys cymryd stoc o lefel y galw am y ddwy gronfa, er mwyn sicrhau y bydd digon o arian ar gyfer y gaeaf nesaf.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Siarter Budd-daliadau i ystyried sut y gall awdurdodau lleol drosglwyddo tenantiaid tai cymdeithasol cymwys i gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi.

Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes

Cydnabu'r Gweinidog y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni ac mae cyllidebau tlodi tanwydd yn hanfodol bwysig. Yn anffodus, cymysg fu record Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Galwodd ein hadroddiad ar dlodi tanwydd am gamau lliniaru yn y tymor agos a byr yn ogystal â syniadau cynaliadwy ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes.

Yn y tymor byr fe wnaethom alw am adolygiad cyflym o'r camau blaenoriaeth yn y Cynllun Taclo Tlodi Tanwydd ochr yn ochr â mesurau i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r toriad TAW i 0% ar inswleiddio a chynnyrch inswleiddio cartrefi. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi

ymrwymo i lunio'r Rhaglen Cartrefi Cynnes nesaf yn unol â'n hargymhellion a'i bod yn gresynu bod y cyhoeddiad sawl mis yn hwyr. Mewn ras i wella effeithlonrwydd ynni cynifer o gartrefi â phosib, bydd pob eiliad a gollir yn gostus i ni y gaeaf nesaf. Mae'n hanfodol felly y cyhoeddir y Rhaglen Cartrefi Cynnes nesaf ar frys. Credwn hefyd bod sicrhau nad oes unrhyw fwch mewn darpariaeth rhwng diwedd y Rhaglen bresennol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon ac iteriad nesaf y cynllun yn hanfodol a byddwn yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Senedd ar ei champau blaenoriaeth fel rhan o'r Cynllun Taclo Tlodi Tanwydd a'r camau mae'n eu cymryd i sicrhau'r budd mwyaf o'r toriad i TAW i 0% ar insiwleiddio a chynnyrch insiwleiddio cartref cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Ar wahân, rydym yn ymwybodol bod ffigurau rhagdalau ar gyfer y Cynllun Talebau Tanwydd wedi dangos bod 5,500 o dalebau wedi'u rhoi, o'u cymharu â 49,000 o dalebau a fu ar gael, fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y bobl sy'n manteisio ar y Cynllun Talebau Tanwydd o'i gymharu â'r targedau a osodwyd pan lanswyd y cynllun, o ran mesuryddion rhagdalau a chartrefi oddi ar y grid. Dylid hefyd ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun, a chyhoeddi crynodeb o'i chanfyddiadau i hysbysu datblygiad polisiau yn y dyfodol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ar frys erbyn Ebrill 2023 fan pellaf i ddarparu atebion cynaliadwy i aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd unrhyw fwch mewn darpariaeth rhwng diwedd y Rhaglen bresennol ac iteriad nesaf y cynllun.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffigurau nifer y bobl a fanteisiodd ar y Cynllun Talebau Tanwydd o'u cymharu â'r targedau a osodwyd pan lanswyd y cynllun, o ran mesuryddion rhagdalau a chartrefi oddi ar y grid. Dylai hefyd ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o nifer y bobl hyn, a chyhoeddi crynodeb o'i chanfyddiadau i hysbysu datblygiad polisiau yn y dyfodol.

Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol

27. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gwneud nifer o ymrwymadau mewn cysylltiad â chydraddoldeb a hawliau dynol gan gynnwys:

- Anabledd – Cryfhau hawliau pobl anabl a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y maent yn parhau i'w hwynebu.
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Mynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig a chefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ – Gwneud Cymru y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTTC+ yn Ewrop a chefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+.²⁸

28. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymarfer ailflaenoriaethu yn effeithio ar gyrraedd y nod o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030. Pwysleisiodd y Gweinidog fod gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gynllun "trawslwodraethol", a bod gan bob Gweinidog gamau gweithredu mewn cysylltiad â hynny.²⁹

29. Nododd y Dirprwy Weinidog fod y cynllun gweithredu LHDTTC+, a fydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Fis Hanes LHDT, hefyd yn gynllun trawslwodraethol gyda chamau y cytunwyd arnynt ar draws Llywodraeth â Gweinidogion eraill. Ychwanegodd:

"[...] through that equality and inclusion budget, we have provided £456,000 as part of work to complete the actions outlined in the plan under this portfolio. That covers things such as that we were really pleased to be able to support Pride Cymru last year, and also be able to support those smaller grass-roots Prides, which I think makes a big impact to communities right across Wales."³⁰

30. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ragor o wybodaeth am yr arian a ddyrannwyd ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu LHDTTC+. Cadarnhaodd mai £774,000 yw'r gwariant disgwylidig ar gyflawni'r cynllun gweithredu yn 2023-24.³¹

Ffoaduriaid Wcráin

31. Mae dros 6,000 o ffoaduriaid Wcráin wedi cyrraedd Cymru drwy gynllun Homes for Ukraine. Ym mis Rhagfyr 2022, mae 3,217 wedi derbyn cefnogaeth gan westeion unigol, tra bod 2,982 arall wedi cael cefnogaeth drwy gynllun uwch-noddwyr Llywodraeth Cymru. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi bod £40 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2023-24, gan leihau i £20 miliwn yn 2024-25, i gefnogi'r ymateb sy'n parhau i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin.³²

32. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"[...] this, working very much with local authorities, will meet what we've committed ourselves to in terms of supporting all those who've got visas through our super sponsor scheme, but also just helping our hosts as well"³³

²⁸ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu](#)

²⁹ Y.Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 73

³⁰ Y.Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 80

³¹ Llythyr at y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023; Llythyr gan y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 24 Ionawr 2023

³² Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

³³ Y.Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 84

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

33. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £3.190 miliwn i Linell Gwariant yn y Gyllideb Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer 2023-24. Tynnodd y Gweinidog sylw at adolygiad diweddar gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y maes hwn, a dywedodd wrthym y bu hyn yn bwerus iawn wrth lywio Llywodraeth Cymru.³⁴ Dywedodd wrthym:

*"It's reflected in the Anti-racist Wales action plan, because that is helping us identify ways in which we can develop our support to have transit accommodation, working more regionally, and also recognising—this is very cross-Government—that the education and Welsh language MEG includes £11 million for education for Gypsy, Roma and Traveller."*³⁵

34. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau'r cyfanswm a wariwyd o'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o gyllideb 2022-23.³⁶ Atebodd:

*"Mae gan y Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gyllideb gyfalaf o £3.690m yn y flwyddyn ariannol 2022-23. Hyd yn hyn, ni fu unrhyw wariant yn erbyn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon, ac ni ragwelir y bydd unrhyw wariant cyn 31 Mawrth 2023."*³⁷

Arian ar gyfer Comisiynwyr

35. Mae papur y Gweinidog yn nodi y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, fod "pob Comisiynydd wedi cael cynnydd o 6% o gymharu â'u cyllideb sylfaen (Cyllideb Derfynol 2022-23)."³⁸

36. Yn ein hadroddiad craffu blynyddol 2022 ar y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gwnaethom awgrymu bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal adolygiad o drefniadau adnoddu Comisiynwyr Cymru.³⁹ Mewn ymateb, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.⁴⁰

³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#), Awst 2022

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 66

³⁶ Llythyr i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

³⁷ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 24 Ionawr 2023

³⁸ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

³⁹ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Craffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: diweddariad](#), Ebrill 2022

⁴⁰ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 10 Mai 2022

37. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru i annog Comisiynwyr Cymru i feddwl am rannu costau swyddfa gefn eu swyddi. Atebodd:

"I'm very pleased to have that question, and it's the sort of work that we can take forward in terms of the challenging times. It's been most important in this draft budget to make sure that they are properly resourced. We've got new commissioners on board, and coming on board, and, again, following your previous question, we need to look at every way and opportunity and option to ensure that we're using our resources most effectively, and back office is obviously one of the ways."⁴¹

Ein barn

Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol

Roedd atebion y Gweinidog ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a LHDTC+ yn ddefnyddiol o ran nodi sut mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio ar draws adrannau. Roedd hefyd yn ddefnyddiol cael cadarnhad o'r cyfanswm a ddyrannwyd i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gall natur draws-adrannol rhai o'r gwaith bylu tryloywder ac atebolrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir gyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn ogystal â'r dyraniadau ar draws adrannau i'r ddau faes polisi hyn er mwyn galluogi gwell tryloywder a chraffu effeithiol.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir gyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o ddyraniadau ar draws adrannau ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+.

Ffoaduriaid Wcráin

Rydym yn cymeradwyo ymrwymiad y Gweinidog i gefnogi'r Wcrainiaid hynny sydd â fisa i ddod i Gymru. Rydym yn pryderu, o ystyried natur anrhagweladwy unrhyw wrthdaro, y gallai digwyddiad mawr neu ddwysáu roi pwysau sylweddol ar ddyraniad y gyllideb.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Roeddem wedi synnu i glywed nad oedd unrhyw arian wedi'i wario (nac wedi'i ragfynegi i'w wario) ym mlwyddyn ariannol 2022-23 o'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 149

gwaethaf dyraniad o £3.690 miliwn. O ystyried bod Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd bellach yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un oedi ar safle anghofrestredig, mae'r diffyg cynnydd hwn yn arbennig o bryderus ac annerbyniol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n frys y rhesymau dros ddiffyg cynnydd hyd yn hyn a sut mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y defnyddir y gronfa bwysig hon. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro beth fydd yn digwydd gyda'r £3.690 miliwn nad yw wedi'i wario. Dylid dyrannu unrhyw arian nas dyrannwyd i gamau gweithredu yn y maes hwn. Mae gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai bryderon tebyg ac mae'n bleser gennym wneud yr argymhelliad ar y cyd hwn.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ar frys y rhesymau dros ddiffyg cynnydd ar ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau defnydd o'r gronfa bwysig hon. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro beth fydd yn digwydd gyda'r £3.690 miliwn o Gyllideb 2022-23 nas gwariwyd, a chadarnhau y bydd yn cael ei ddyrannu i gamau gweithredu yn y maes hwn.

Arian ar gyfer Comisiynwyr

Rydym yn cydnabod rôl bwysig Comisiynwyr Cymru wrth hyrwyddo hawliau gwahanol grwpiau o bobl, ond yng ngoleuni'r cyd-destun ariannol anodd, mae ganddynt gyfrifoldeb i chwilio am arbedion yn yr un modd â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys archwilio cyfleoedd i weithio'n agosach a all sicrhau arbedion, gan gynnwys cydweithio posibl drwy gydleoli swyddfeydd a gwasanaethau, neu drwy rannu swyddogaethau swyddfa gefn. Rydym yn falch y derbyniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ein hargymhelliad i adolygu trefniadau adnoddu Comisiynwyr Cymru, ac edrychwn ymlaen at weld canlyniad y gwaith hwn.

Sector gwirfoddol

38. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ymrwmo i "dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math", ac mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i "Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau".

39. Yn y Gyllideb Ddrafft, mae Llinell Gwariant yn y Gyllideb Cymorth i'r Sector Gwirfoddol yn gweld cynnydd o £130,000, neu 1.65% mewn termau arian parod, ar y dyraniad yng Nghyllideb Atodol gyntaf 2022-23. Fodd bynnag, o ystyried y gyfradd uchel o chwyddiant, mae hyn yn cyfateb i ddyraniad llai mewn termau real. Cyfanswm y dyraniad yn 2023-24 yw £7.624 miliwn. Mae hyn yn darparu cyllid craidd ar gyfer seilwaith y trydydd sector (CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol) yng Nghymru yn ogystal â chymorth ar gyfer gwirfoddoli.

40. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog wneud sylw ar gynaliadwyedd cyllid i wasanaethau gwirfoddol. Dywedodd wrthym:

*"[...] the Third Sector Partnership Council is really important. [...] for many years, there has been a third sector partnership funding and compliance and good governance stream of work. So, that is looking at this, in terms of the sustainability of funding and moving towards three-year funding, where possible. This also has to be reflected in all our other public bodies that fund the third sector [...]. But we're very much in the hands of the UK Government in terms of spending reviews et cetera."*⁴²

41. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o fanylion am waith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ymwneud â chynaliadwyedd cyllid a chadarnhad bod grantiau Trydydd Sector Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael eu dyfarnu ar sail 3 blynedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.⁴³ Cadarnhaodd:

*"O ddechrau 2022 ymlaen, gall pob grant cystadleuol newydd, oni bai bod Gweinidogion neu ffactorau eraill yn gorchymyn fel arall, gael eu dyfarnu am hyd at dair blynedd, a chynhelir ymarfer meincnodi i asesu perfformiad ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Yn amodol ar ganlyniad yr ymarfer meincnodi gall y cynllun grantiau gael ei ymestyn am dair blynedd arall, os bydd angen. Ond fe ddylai hyd cyfnod y cynllun grantiau hefyd fod yn ddibynnol ar anghenion y maes polisi. Dyna'r polisi sy'n berthnasol ar draws Llywodraeth Cymru."*⁴⁴

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

42. Honnodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi "diogelu cyllid" i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), a bod dyraniad o £130,000 wedi'i roi i Linell Gwariant yn y Gyllideb VAWDASV fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft.⁴⁵

43. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"what's important is learning from all the strategic groups in this specialist sector on the best ways of allocating that money, and I've prioritised funding for the regions and the specialist services that we directly fund."*⁴⁶

44. Yn ein hadroddiad ar drais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, gwnaethom argymhell y dylid sefydlu cronfa argyfwng i ddarparu cymorth ariannol i fenywod Heb Hawl i

⁴² Y.Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

⁴³ Llythyr at y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

⁴⁴ Llythyr gan y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 24 Ionawr 2023

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, Papur y Gyllideb Ddrafft

⁴⁶ Y.Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 141

Arian Cyhoeddus.⁴⁷ Derbyniwyd yr argymhelliad gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'n hadroddiad.⁴⁸ Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog o ble fyddai'r arian ar gyfer y gronfa argyfwng yn dod ac fe gadarnhaodd:

"[...] We were committed to the fund; it will be paid out of our VAWDASV BEL for 2023-24. We'll make sure that that allocation is there to deliver."⁴⁹

Gwasanaethau brys

45. Yn ôl papur y Gweinidog, o ganlyniad i'r gostyngiad o £1.64 miliwn yng nghyllideb Systemau Cyfathrebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a gynhaliwyd fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu, bydd cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y contract Airwave yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023. Codwyd pryderon am y toriad a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar awdurdodau lleol. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y pryderon ond dywedodd wrthym ei bod wedi blaenoriaethu ble mae modd cefnogi'r gwasanaethau diogelwch cymunedol hynny, ond hefyd pethau yn ymwneud â chadernid cenedlaethol a chyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer hynny.⁵⁰

46. Gwnaethom ofyn a ystyriwyd uno'r gwasanaethau brys yn un sefydliad, fel bod modd cyfuno costau fel treuliau swyddfa gefn. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at enghraifft o bencadlys rheoli cysylltiadau a rennir yng ngogledd Cymru a chydabu potensial y ffordd hon o weithio.⁵¹

47. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH), drwy gynyddu cyfanswm ei chyllideb ar gyfer Cymorth a Diogelwch Cymunedol o £22.625 miliwn yn 2022-23 i £22.998 miliwn yn 2023-24. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn a dywedodd wrthym fod y codiad ar gyfer SCCH yn ymrwymiad eglur iawn iddi yn y rhaglen lywodraethu. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod SCCH yn allweddol o ran y rôl rheng flaen maen nhw'n ei chwarae mewn cymunedau.⁵²

⁴⁷ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol](#), Hydref 2022

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol](#), Rhagfyr 2022

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 143

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraffau 134 a 138

⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraffau 147 a 145

⁵² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023. Cofnod y Trafodion, paragraffau 129-130

Gwariant ataliol

48. Galwodd argymhelliad 6 ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol.

49. Mae papur y Gweinidog yn nodi mai rhan o'r gwaith arfaethedig yn 2023 ar gyfer y Grŵp Cynghori diwygiedig ar Effaith Gwella'r Gyllideb yw ystyried atal, ac "Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried yr achos dros ddefnyddio cyngor arbenigol a gomisiynwyd, wedi'i gydbwyso yn erbyn costau gwneud hynny".⁵³

Ein barn

Sector gwirfoddol

Yn ein hadroddiad ar drais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, buom yn trafod pwysigrwydd eglurder a sicrwydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector mewn cysylltiad â'u cyllid, er mwyn iddynt allu cynllunio eu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Mae'r cynnydd ehangach hwn a gadarnhawyd gan y Gweinidog wrth symud tuag at gyllid tair blynedd ar gyfer gwasanaethau gwirfoddol i'w groesawu, felly.

Fodd bynnag, er i'r Gweinidog gydnabod y pwysau ar y sector gwirfoddol o ran yr argyfwng costau byw, rydym yn pryderu nad yw hyn wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb sy'n wynebu toriad mewn termau real. Nodwn fod tystiolaeth ysgrifenedig gan CGGC i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn amlygu mai cost y pandemig i sector gwirfoddol Cymru oedd £620 miliwn mewn incwm ac nad yw'r sector wedi adfer o hynny eto. Mae cyfle, drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, i ymgysylltu â'r sector i sicrhau ei fod yn gynaliadwy. Fel y dangoswyd yn ystod y pandemig, mae'r trydydd sector yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ac mae'n hanfodol ei fod yn parhau i gael ei gefnogi.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Roeddem yn falch bod y Gweinidog wedi ailadrodd ei hymrwymiad i'r gronfa argyfwng i gefnogi menywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Fodd bynnag, nodwn ei sylw y bydd yn cael ei dalu o Linell Gwariant yn y Gyllideb VAWDASV ar gyfer 2023-24, sy'n awgrymu nad oes arian ychwanegol wedi'i ddarparu. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r datganiad hwn ac, ar ben hynny,

⁵³ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

dylai nodi'n glir ei blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2023-24 o ran cyflawni strategaeth VAWDASV.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol (a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2023) o ble y daw cyllid ar gyfer y gronfa argyfwng i gefnogi menywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2023-34 o ran cyflawni strategaeth VAWDASV.

Gwasanaethau brys

Cawsom ein calonogi gan gydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog o'r potensial ar gyfer gweithio ar y cyd yn y maes hwn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cydweithio â Llywodraeth y DU i archwilio cyfleoedd i ddiwygio gwasanaethau golau glas yng Nghymru. Dylai'r gwaith hwn gynnwys canolbwyntio ar faint y gall gweithio'n agosach ddileu aneffeithlonrwydd.

Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog am rôl hanfodol SCCH mewn cymunedau; fodd bynnag, mae'n amheus a ddylid blaenoriaethu cyllid yn y maes hwn pan fydd eraill sydd hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn diogelwch cymunedol, fel y sector gwirfoddol, yn wynebu toriadau mewn termau real.

Gwariant ataliol

Fel y nodwyd eisoes, mae anawsterau wrth fesur effaith a chanlyniadau penderfyniadau gwariant yn effeithiol yn debygol o rwystro ymdrechion i dargedu adnoddau prin.⁵⁴ Rydym wedi siomi felly nad yw Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil fel yr argymhellwyd. Byddai gwaith o'r fath yn allweddol i gynyddu graddfa ac effeithiolrwydd gwariant ataliol.

Mae'n amlwg o dystiolaeth y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i wariant ataliol a'i bod yn ei ystyried y ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae angen goresgyn nifer o heriau a amlygwyd gennym yn ein hadroddiad cyllideb y llynedd, gan gynnwys gwerthuso mesurau gwariant ataliol, a darparu tystiolaeth o effaith buddsoddi mewn gwariant ataliol, o hyd. Ac felly, rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyhoeddi ymchwil ar wariant ataliol. Rydym o'r farn bod yr ymarfer yn fwy allweddol byth eleni, pan fydd cyllidebau'n cael eu gwasgu a gallai gwariant ataliol gael ei wthio allan; felly dylai Llywodraeth Cymru rannu ei chanfyddiadau â'r Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

⁵⁴ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol, a dylid rhannu'r canfyddiadau o'r rhain â'r Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

4. Gwella'r gyllideb

Asesiad Effaith Integredig Strategol

50. Mae gan Lywodraeth Cymru wahanol rwymedigaethau cyfreithiol i asesu effaith ei phenderfyniadau ar gydraddoldeb, plant a phobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i gynnwys, felly, yn Atodiad A i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2023-24.⁵⁵

51. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, galwodd ein hargymhelliad cyntaf ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i ddiweddarau i gynnwys cofnod manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau cyn dadl y Senedd ar y gyllideb derfynol.⁵⁶ Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ond ni ddarparwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i ddiweddarau; yn hytrach, cyfeiriwyd yr Aelodau at holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i bwyllgorau craffu'r Senedd.

52. Ymddengys mai dull tebyg sy'n cael ei ddefnyddio eleni, gyda'r Gweinidog yn datgan y bydd pob Gweinidog " nodi'r penderfyniadau ailflaenoriaethu a wnaed sy'n effeithio ar ei bortffolio ei hun yn ei bapur tystiolaeth ei hun."⁵⁷

53. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn datgan:

"Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft [yw'r Asesiad Effaith Integredig Strategol], gydag effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A. Ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi crynodeb helaeth o dystiolaeth ysgrifenedig pob Gweinidog i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant; bydd hyn yn rhoi darlun manylach o'r modd y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol."⁵⁸

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2023-24](#)

⁵⁶ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#), Chwefror 2022

⁵⁷ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

Yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb

54. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa gyngor a data mae'r Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd wedi'u darparu i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwell penderfyniadau polisi a gwariant. Nododd ei phapur tystiolaeth fod yr Unedau "wedi darparu dadansoddiad lefel uchel a chroestoriadol o'r dystiolaeth sydd ar gael ar anghydraddoldeb er mwyn nodi'r bobl hynny y gallai toriadau cyllidebol effeithio arnynt fwyaf", a bod y dystiolaeth hon wedi'i defnyddio i lywio'r Aseiad Effaith Integredig Strategol.⁵⁹

55. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau cyfanswm yr arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb. Dywedodd wrthym:

*"Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 yw £1,635,650. Mae'r gyllideb yn cynnwys costau staff i gynnal gweithgareddau ymchwil ac ystadegol, cyllideb ymchwil i gomisiynu gwaith ymchwil, a swm bach o gostau gweithredol i gefnogi recriwtio a chynefino staff."*⁶⁰

Dadansoddiad dosbarthiadol o'r gyllideb

56. Mae'r Resolution Foundation yn rhagweld y bydd cartrefi yn wynebu'r cwmp mwyaf mewn incwm cartrefi real ers y 1970au. Bydd effeithiau hyn yn cwmpo'n anghymesur ar gartrefi incwm isel, o ystyried y cyfraddau uwch o chwyddiant ar gyfer bwyd ac ynni, gan eu harwain i gyfyngu ar yr hanfodion yn ddifrifol.⁶¹

57. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig, fel y gwnaeth ar gyfer y ddwy gyllideb flaenorol. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

*"[...] last year, we published a distributional impact assessment and, given that things haven't really changed in that space since last year, that document still remains valid at the moment."*⁶²

58. Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn nodi y bydd yn cyhoeddi diweddariadau "pan fydd newidiadau sylweddol o ran y defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu ddyrannu gwariant".

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#)

⁶⁰ [Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 24 Ionawr 2023](#)

⁶¹ Resolution Foundation, [The Living Standards Outlook 2023](#), Ionawr 2023

⁶² Pwyllgor Cyllid, [14 Rhagfyr 2022](#), Cofnod y Trafodion, paragraff 113

59. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"We've got to improve transparency for the budget, we've got to reform how we assess impact, and we've got to maintain equality at the heart of our budget process."⁶³

Ein barn

Asesiadau Effaith Integredig Strategol

Rydym wedi siomi, er y derbyniwyd argymhelliad y llynedd ynglŷn ag Asesiadau Effaith Integredig Strategol gan Lywodraeth Cymru, nid yw wedi ei weithredu'n ymarferol. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu gweld sut mae ystyriaethau cydraddoldeb a llesiant cenedlaethau'r dyfodol wedi llywio penderfyniadau'r gyllideb, yn enwedig ar adeg o doriadau mewn termau real.

Rydym felly'n ailadrodd ein galwad i Lywodraeth Cymru adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r bwriad o gyhoeddi cofnod manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau cyn y Gyllideb Derfynol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r bwriad o gyhoeddi cofnod manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau cyn y Gyllideb Derfynol.

Dadansoddiad dosbarthiadol o gyllidebau

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog o'r angen am well tryloywder a diwygio sut yr asesir effaith, a bydd y Cynllun Gwella'r Gyllideb yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwnnw. Rydym yn nodi nad yw dadansoddiad dosbarthiadol wedi'i ddiweddarau wedi'i gyhoeddi fel rhan o broses gyllideb eleni oherwydd bod dyraniadau'n parhau'n weddol debyg. Fodd bynnag, byddem yn dadlau bod yr argyfwng economaidd ynghylch costau byw yn cyfiawnhau cadw'r dadansoddiad hwn mor gyfoes â phosibl, ac yn galw am gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol wedi'i ddiweddarau ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol mewn pryd ar gyfer y Gyllideb Derfynol.

⁶³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 152